22.07.2021

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Yr Eisteddfod ar S4C – Gŵyl â rhywbeth i bawb

Mae wythnos gyntaf mis Awst wedi bod yn un brysur erioed i'r miloedd o bobl sydd naill ai yn mynychu neu yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ond wrth i'r brifwyl gael ei gohirio eto eleni, mae bwlch enfawr wedi ei greu yn nyddiadur diwylliannol a chymdeithasol Cymru.

Bydd S4C yn cynnig amserlen gyffrous llawn adloniant amrywiol i unrhyw Eisteddfodwr sy'n teimlo'r golled o beidio gallu ymweld â'r maes eto eleni.

Meddai Elen Rhys, Comisiynydd Adloniant S4C: "Bydd S4C yn cynnig rhywbeth i bob blas gan gyflwyno amrywiaeth cyffrous o gynnwys yr Ŵyl trwy gydol yr wythnos. Un datblygiad pendant ers y llynedd yw bod cystadlu'n cael lle amlwg yn yr arlwy, gydag S4C yn darlledu drwy'r wythnos o'r Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd.

"Bydd hefyd cyfle i ddathlu llwyddiant enillwyr y prif gystadlaethau mewn seremonïau Gorseddol go wahanol, a fydd yn cael eu cynnal yn fyw gyda'r nos yn ystod y rhaglen uchafbwyntiau ar S4C. Bydd rhai o aelodau'r Orsedd yn fyw yn y stiwdio gyda'r Archdderwydd, wrth i ni ddarganfod a oes teilyngdod yng nghystadlaethau'r Goron, y Gadair a'r Fedal Ryddiaith."

Bydd rhaglenni byw dyddiol ar S4C o ddydd Llun 2 Awst i ddydd Gwener 6 Awst o 3.00yp i 6.00 yr hwyr gyda Nia Roberts yn cyflwyno. Bydd rhaglen bob nos yn edrych ar holl uchafbwyntiau'r diwrnod rhwng 8.00-9.25yh gyda Jennifer Jones yn cyflwyno.

Yn ystod yr wythnos, bydd sawl rhaglen arbennig hefyd i'w gweld ar S4C gan ddechrau nos Wener gyda **Maes B: Merched yn Gwneud Miwsig** – rhaglen awr sy'n dathlu cyfraniad merched i fiwsig Cymru. Wedi ei ffilmio yn warws yr Eisteddfod yn Llanybydder, mae'r rhaglen arbennig yn cynnwys perfformiadau gan Adwaith, Thallo, Eadyth, Hana Lili, Gwenno Morgan a Casi Wyn. Sian Eleri (BBC Radio 1 a BBC Radio Cymru) fydd yn cyflwyno'r dathliad arbennig hon.

Ar nos Sadwrn bydd yna uchafbwyntiau o lwyfan yr Eisteddfod Gudd, **Cyngerdd yr Eisteddfod Gudd 2021** wedi ei ffilmio dros ddau ddiwrnod ar lwyfan awyr agored yn Aberystwyth. Gyda Ffion Emyr a Gethin Evans yn ein tywys, mae'r perfformiadau'n cynnwys rhai o brif berfformwyr Cymru fel Eden, Yr Ods, Huw Chiswell, Candelas a Welsh of the West End.

Byddai wythnos yr Eisteddfod ddim yr un peth heb y gymanfa ganu ac felly bydd **Cymanfa Ganu Eisteddfod AmGen 2021** yn cael ei ddarlledu ar S4C ar nos Sul am 8.00 o lwyfan yr Eisteddfod Gudd yn Aberystwyth.

Yn ogystal â dathlu traddodiad y Gymanfa, bydd eleni yn gyfle i archwilio ac arbrofi'r traddodiad emynol yn ogystal â pharchu'r emynau cyfarwydd, a hynny dan arweiniad y cerddor amryddawn, Huw Foulkes. Mae hi'n amser heriol ac unig i lawer, ac felly bydd y gymanfa yn cyflwyno thema sy'n dathlu dod â phawb ynghyd mewn cyfnod o fod ar wahân.

Bydd Côrdydd yn perfformio trefniannau Jeffrey Howard o Pantyfedwen a Builth sy'n rhoi gogwydd newydd i rai o'n hemynau mwyaf cyfarwydd. Cawn hefyd fwynhau trefniannau jazz o'r newydd o emyn neu ddwy gan rhai o'n hartistiaid mwyaf talentog, Mared Williams, Jalisa Andrews a Gwyn Owen, ac ambell i sgwrs gan westai arbennig. Bydd y cyfan yn cael ei gyflwyno o Aberystwyth gan Iwan Griffiths.

Mae'r gymanfa yn dod ag wythnos arbennig o raglenni i ben – ond i'r sawl sydd eisiau ail-fyw rhai o uchafbwyntiau'r brifwyl bydd rhaglen arbennig ar nos Sadwrn, 14 Awst sef **Uchafbwyntiau Eisteddfod AmGen 2021.**

Bydd mwy o fanylion ar gael ar wefan S4C sef www.s4c.cymru.

Eisteddfod AmGen
Dydd Llun 2 Awst – Dydd Gwener 6 Awst 3.00-6.00, S4C

Uchafbwyntiau'r dydd a seremonïau byw
Nos Lun 2 Awst - nos Wener 6 Awst, 8.00-9.25, S4C

Cyngerdd yr Eisteddfod Gudd 2021
Nos Sadwrn 7 Awst 8.00, S4C

Cymanfa Ganu Eisteddfod AmGen 2021
Nos Sul 8 Awst 8.00, S4C

Maes B: Merched yn Gwneud Miwsig
Nos Wener 6 Awst, 9.30, S4C

Uchafbwyntiau Eisteddfod AmGen 2021
Nos Sadwrn 14 Awst 8.00, S4C

Isdeitlau Saesneg
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill

22.07.2021

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

Erthygl i'r Wasg Press Release

The Eisteddfod on S4C – a festival with something for all

The first week of August has always been a busy time for the thousands of people who either attend or compete in the National Eisteddfod.

But as the festival is postponed again this year, a huge gap has been created in Wales's cultural and social calendar.

S4C will be offering a variety of entertainment in a full and exciting schedule for any Eisteddfod-goer who is missing being able to visit the festival again this year

Elen Rhys, S4C's Entertainment Commissioner said: "S4C will be offering something for all tastes by presenting an exciting variety of content from the Eisteddfod throughout the week. One of the main developments since last year is that the competitions will be playing a prominent role in our programming, with S4C broadcasting throughout the week from Central Square in Cardiff."

"There will also be a chance to celebrate the success of the winners of the main Gorsedd competitions in ceremonies which will be very different to usual and will be held in the evening during the highlights programme on S4C. Some of the members of the Gorsedd of the Bards will appear live in the studio with the Archdruid, as we discover if winners have been found worthy of the Crown, Chair and Prose Medal."

There will be daily live programmes on S4C from Monday, August 2 to Friday, August 6 from 3.00pm to 6.00pm with Nia Roberts presenting. Jennifer Jones will be presenting a nightly programme looking back at the day's highlights between 8.00pm and 9.25pm.

During the week, there will be several special programmes on S4C beginning on Friday with **Maes B: Merched yn Gwneud Miwsig** (Women Making Music) – an hour-long programme which celebrates the contribution women have made to Welsh music. Filmed in the Eisteddfod warehouse in Llanybydder, this special programme includes performances from Adwaith, Thallo, Eadyth, Hana Lili, Gwenno Morgan and Casi Wyn and is presented by Sian Eleri (BBC Radio 1 and BBC Radio Cymru).

On Saturday night there will be highlights from the Eisteddfod Gudd (Hidden Eisteddfod) concert - **Cyngerdd yr Eisteddfod Gudd 2021** - filmed across two days on an outdoor stage in Aberystwyth. With Ffion Emyr and Gethin Evans leading us through the event, there will be performances from some of Wales's top artists including Eden, Yr Ods, Huw Chiswell, Candelas and Welsh of the West End.

The Eisteddfod wouldn't be the same without the cymanfa ganu (congregational singing) so the **Cymanfa Ganu Eisteddfod AmGen 2021** will be broadcast on S4C on Sunday at 8.00pm from the Eisteddfod Gudd stage in Aberystwyth.

As well as celebrating the cymanfa tradition, this year brings an opportunity to explore and experiment with traditional hymns as well as honouring the familiar hymns under the versatile musician, Huw Foulkes. This is a lonely and challenging time for many, so the cymanfa will celebrate bringing everybody together in a period where we have spent so much time apart.

Côrdydd will be performing arrangements of the hymns Pantyfedwen and Builth by Jeffrey Howard who puts a new spin on some of our most familiar hymns. There will also be new jazz arrangements of one or two hymns by some of our most talented artists, Mared Williams, Jalisa Andrews and Gwyn Owen, plus special guests. The event will be presented by Iwan Griffiths.

The Cymanfa Ganu brings a week of special programmes to an end – but for those who want to re-live some of the festival's highlights there will be a special programme on Saturday, August 14 - **Uchafbwyntiau Eisteddfod AmGen 2021.**

For further information visit the S4C website www.s4c.cymru.

Eisteddfod AmGen
Monday August 2 – Friday August 6, 3.00-6.00pm, S4C

Day's Highlights and Live Ceremonies
Monday August 2 – Friday August 6, 8.00-9.25pm, S4C

Eisteddfod Gudd Concert 2021
Saturday August 7, 8.00pm, S4C

Cymanfa Ganu Eisteddfod AmGen 2021 (Congregational Singing)
Sunday August 8, 8.00pm, S4C

Maes B: Merched yn Gwneud Miwsig (Women Making Music)
Friday August 6, 9.30pm, S4C

Highlights of the Eisteddfod AmGen 2021
Saturday August 14, 8.00pm, S4C

English subtitles available
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms